# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 17EG MAWRTH, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans 01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 10 Mawrth 2016)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Peredur Jenkins | W. Tudor Owen | Simon Glyn |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Trevor Edwards | John Pughe Roberts |

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

## Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| CynghoryddHywel Eifion Jones | Cyngor Môn |
| Cynghorydd Margaret Lyon | Cyngor Bwrdeistref Conwy |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 1 - 3

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11.2.16 fel rhai cywir .

**5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2016/17** 4 - 17

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

**6. DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI** 18 - 33

Ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**7. DIWEDDARIAD AR YMGYNGHORIADAU LLYWODRAETH WESTMINSTER (DCLG)** 34

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

## PWYLLGOR PENSIYNAU, 11.02.2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, Seimon Glyn, Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen (Cadeirydd) a John P. Roberts

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau), Nicholas Hopkins (Dirprwy Reolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), Peredur Jenkins a Glyn Thomas (sylwebydd).

Croesawyd Sharon Warnes, Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn i'r cyfarfod, fel sylwebydd.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10fed o Dachwedd 2015 fel rhai cywir.

**5. YMGYNGHORIAD RHEOLIADAU BUDDSODDI**

a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlinellu cynnig o fewn ymgynghoriad cyfredol gan Lywodraeth San Steffan ar ddiddymu a disodli rheoliadau cynllun pensiwn llywodraeth leol 2009. Amlygwyd mai'r rheswm dros hyn yw galluogi'r cronfeydd gymryd rhan mewn cyfuno buddsoddiadau heb dorri cyfyngiadau cyfredol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynigion fydd i'w gynnwys yn yr ymateb gan Cyngor Gwynedd.

Y ddau gynnig dan ystyriaeth

1. Mabwysiadu dull lleol i fuddsoddi
2. Cyflwyno amddiffyniad - ysgrifennydd gwlad hawl i ymyrryd

b) Mewn ymateb i'r cynnig cyntaf - i fabwysiadu dull lleol i fuddsoddi, amlygwyd bod yr egwyddor yn dderbyniol, ond nad oedd digon o fanylder ar sut fydd yn cael ei weithredu; bydd angen sicrhau bod datganiadau clir a diffiniadau priodol yn eu lle cyn mabwysiadu yn llawn. Wrth ystyried sefydlu a buddsoddi mewn un gronfa ar draws Cymru, nodwyd bod y rheoliadau newydd yn ymarferol ac yn rhoi mwy o ryddid i gronfeydd weithio gyda balansau.

Derbyniwyd cynnig un a chytunwyd paratoi ymateb.

c) Mewn ymateb i'r ail gynnig - cyflwyno amddiffyniad, amlygwyd nad oedd eglurhad cyflawn yma ac y buasai angen deall beth yw strwythur yr ymyrraeth dan sylw. Amlygwyd y gall ymyrraeth newid fesul llywodraeth ac felly hanfodol fuasai sicrhau rheolaeth gyllidol ar y rheoliadau ac nid rheolaeth wleidyddol.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid drwy nodi nad oedd yn pryderu yn ormodol am unrhyw ymyrraeth gan fod y gronfa yn cael ei gweinyddu yn effeithiol, ond bod angen proses a strwythur penodol yn ei lle i amlygu o dan ba amgylchiadau y bydd ymyrraeth yn debygol - angen eglurder.

Penderfynwyd neilltuo barn ar y cynnig yma, ond cynnwys y cwestiynau yn yr ymateb

**PENDERFYNWYD dirprwyo'r hawl i'r Rheolwr Buddsoddi, y Pennaeth Cyllid a'r Cadeirydd baratoi ymateb i'r ddau gynnig.**

## 6. YMGYNGHORIAD ADOLYGIAD BUDDSODDI – YMATEB CRONFEYDD CYMRU

a) Rhoddwyd diweddariad gan y Rheolwr Buddsoddi ar y gwaith a ymgymerwyd gan Is Grŵp Pensiynau Cymdeithas Trysoryddion Cymru ar sefydlu UN cerbyd cyd fuddsoddi i geisio gwell taliadau. Ategwyd bod wyth cronfa wedi derbyn cefnogaeth y Pwyllgorau, ond rhagwelwyd mai cronfa gwerth oddeutu £12bn oedd yma ac nid un sydd gydag o leiaf £25bn fel y mae'r Canghellor wedi ei gyhoeddi. Amlygwyd er hynny, y bydd yr ymgynghorwyr yn parhau i roi cynnig ymlaen ar ran yr wyth gronfa yng Nghymru.

Mewn ymateb i gyhoeddiad y Canghellor, amlygwyd bod trefniadau da eisoes yn eu lle yng Nghymru a phetai'r gronfa yn mynd yn fwy, yna'r pryder amlycaf yw y byddai'r llinell atebolrwydd yn mynd yn bell ynghyd a'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol.

b) Adroddwyd bod Hymans Robertson wedi cael eu penodi (drwy broses caffael) fel yr ymgynghorwyr fyddai yn gweithredu ar ran yr wyth gronfa drwy asesu'r achos busnes a darparu ymateb i'r ymgynghoriad ar eu rhan. Ategwyd, fel rhan o'r briff, bod Hymans hefyd yn cynnig sylwadau ar y trefniadau llywodraethu.

c) Dosbarthwyd yr ymateb cychwynnol, sydd hefyd wedi ei gylchredeg ar draws Cymru, i'r Aelodau. Amlygwyd mai'r gobaith yw ei gefnogi fel UN cynnig. Er nad oes sicrwydd beth fydd ymateb San Steffan i'r cynnig, y gobaith yw parhau fel wyth neu/ac efallai ymuno a grŵp arall.

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd i gyflwyno'r ymateb fel un gronfa i Gymru a derbyn ymateb San Steffan (pan gaiff ei gyflwyno). Os caiff y cynnig ei wrthod, yna bydd rhaid trafod ymhellach ac ystyried yr opsiynau posib.

**PENDERFYNWYD cefnogi cynigion Hymans Robertson i'r ymgynghoriad**

## 7. BUDDSODDIADAU ECWITI PREIFAT AC IS ADEILADWAITH

a) Mewn cyfarfod chwarterol o'r Panel Buddsoddi diweddar yn Llundain trafodwyd Adroddiad Hyman Robertson ar opsiynau ar gyfer ymrwymiadau pellach i

fuddsoddiadau Ecwiti Preifat a buddsoddiadau is adeiladwaith. Daethpwyd i'r canlyniad y dylid buddsoddi mewn cronfeydd uniongyrchol.

b) Mewn ymateb, nodwyd bod y drafodaeth eisoes wedi ei chynnal yn Llundain ar 19.11.15 ac felly'r Pwyllgor yn barod i gadarnhau'r buddsoddiadau uniongyrchol hyn gyda

- Partners Group Direct Equity 2016 Fund
- Partners Group Direct Infrastructure 2015 Fund

yn unol â barn y Panel Buddsoddi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhelliad.**

## 8. STRWYTHUR UNED WEINYDDU YR ADRAN PENSIYNAU

a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo cynnydd gwariant ar newid strwythur yr Uned Weinyddu ynghyd a chytuno ar strwythur staff diwygiedig fydd yn weithredol o Mawrth1af 2016.

b) Amlygwyd y byddai'r addasiad yn lledaenu'r cyfrifoldeb goruchwylio o fewn yr uned, fydd maes o law, yn cryfhau'r haenau rheolaethol o fewn y strwythur gan sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol a gwella cyfathrebu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhelliad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben 2:50pm

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **17 MAWRTH 2016** |
| TEITL: | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2016/17** |
| PWRPAS: | **Gofyn i'r pwyllgor pensiynau fabwysiadu'r strategaethau** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. STRATEGAETH FUDDSODDI Y GRONFA BENSIWN

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2016/17, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (sy'n amgaeedig fel Atodiad A). Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2016/17 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2016.

## 2. CANLLAWIAU CIPFA

Bydd y Gronfa yn rhoi ystyriaeth i adolygiad 2009 o "CIPFA Treasury Management in Public Services Code of Practice and Cross Sectoral Guidance Notes".

## 3. LLIF ARIAN Y GRONFA BENSIWN

Mae mewnlif net o arian i'r Gronfa gan ei haelodau, felly mewn unrhyw fis, mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol â chostau. Pan fydd lefel yr arian dros ben yn sylweddol, bydd arian yn cael ei drosglwyddo i un neu fwy o reolwyr buddsoddi y Gronfa. Fel rheol bydd tua £5 miliwn yn cael ei gadw ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rai adegau mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghyfrifon banc y Gronfa gyda Chyngor Gwynedd wedi bod dros £20 miliwn.

## 4. CRONNI ER MWYN UCHAFU DYCHWELIADAU

Ar hyn o bryd mae holl arian dros ben y Gronfa yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Gall hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau yn dymuno i arian dros ben y gronfa bensiwn gael ei gronni efo balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg fod cronni yn caniatáu manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc, ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor. Mae'r adroddiad a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2016

yn cynnwys cytundeb i barhau’r trefniant cronni gyda’r Gronfa Bensiwn yn dilyn unrhyw gais gan y Pwyllgor Pensiynau.

## 5. GWRTHBARTION

Mae Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys y Cyngor a’r papurau ymarfer yn cynnwys matrics risg a defnyddir i ddiffinio’r offerynau a’r gwrthbartion i’w defnyddio ar gyfer dibenion buddsoddi yn hytrach na rhestr diffiniedig bob blwyddyn.

## 6. SGÔP

Ni fydd y strategaeth arfaethedig yn delio gyda’r arian sy’n cael ei ddal gan reolwyr buddsoddi y Gronfa ar gyfer setliadau.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo’r Datganiad Strategaeth Rheoli’r Trysorlys a’r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol atodol am 2016/17, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A).

7.2 Gofynnir hefyd i’r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i’r Cyngor (er nad yw’n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2016 ymlaen.

## ATODIAD A

# Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2016/17

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2011 fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer Rhifyn 2011): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (Cod CIPFA) sy’n gofyn i’r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.2 Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig a elwir y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* ym mis Ebrill 2010 sy’n gofyn i’r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.3 Mae’r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol yr Awdurdod dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i’r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

1.4 Mae’r Awdurdod wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly’n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy’n newid. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risgiau’n llwyddiannus yn greiddiol i strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Y Cefndir Economaidd

Mae galw domestig wedi cynyddu'n arw, wedi'i gefnogi gan dwf incwm real wedi'i gynnal a gostyngiad graddol mewn arbedion sector preifat. Roedd prisiau isel olew a nwyddau yn nodwedd amlwg o 2015 a chyfrannodd hyn at y gostyngiad yn y chwyddiant CPI blynyddol i 0.1% ym mis Hydref. Mae cyflogau'n tyfu 3% bob blwyddyn, ac mae'r gyfradd diweithdra wedi gostwng i 5.4%. Mae nifer y morgeisi sy'n cael eu cymeradwyo wedi cynyddu i 70,000 y mis ac mae’r twf pris tai blynyddol oddeutu 3.5%. Mae'r ffactorau hyn wedi rhoi hwb i hyder cwsmeriaid, gan gynorthwyo i danategu gwariant ac o ganlyniad dwf mewn GDP, oedd yn 2.3% y flwyddyn yn nhrydydd chwarter 2015. Er y bu i ddatganiadau gan aelodau Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr roi awgrym bod rhai yn fodlon cefnogi cyfraddau llog uwch, dal cyfraddau polisi ar 0.5% wnaeth yr MPC am yr 81fed mis yn olynol yn ei bwyllgor ym mis Tachwedd 2015. Mae QE wedi'i gynnal ar £375bn ers mis Gorffennaf 2012.

Bu i ganlyniad etholiad cyffredinol y DU, a frwydrwyd i raddau helaeth dros agwedd y pleidiau ar sut i ddelio â’r diffyg mewn arian cyhoeddus, arwain at newidiadau mawr yn y tirwedd gwleidyddol. Rhoddodd hyn y prif fater o berthynas y DU gyda'r UE yng nghalon gwleidyddiaeth y dyfodol. Gallai'r ansicrwydd ynghylch canlyniad y refferendwm sydd ar y gorwel roi pwysau tuag at i lawr, ar dwf GDP y DU ac ar gyfraddau llog.

Mae twf China wedi arafu ac mae economi'r wlad yn perfformio'n is na'r disgwyliadau, gan leihau galw'r byd am nwyddau a chyfrannu at wendid y farchnad. Cynyddu wnaeth twf domestig yr UD ond arafu bu hanes y sectorau o economi'r UD sy'n rhyngwladol sensitif. Fodd bynnag, mae data marchnad llafur cryf yr UD a dangosyddion economaidd eraill yn awgrymu nad yw'r cynnwrf rhyngwladol diweddar wedi effeithio ar adferiad America. Cynyddodd y Gronfa Ffederal y cyfraddau polisi i 0.5% yn ystod ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2015. I'r gwrthwyneb, aeth Banc Canolog Ewrop (ECB) ati i wneud QE yn 2015 er mwyn gwrthsefyll y peryglon o ddatchwyddiant.

## 2.2 Rhagolygon credyd

Mae ffawd amrywiol gwahanol rannau o'r economi byd-eang yn cael eu hadlewyrchu yn nangosyddion y farchnad o risg credyd. Gwelodd Banciau'r DU sydd yn gweithredu yn y Dwyrain Pell a rhannau o dir mawr Ewrop, gynnydd yn eu risg, tra bod y rhai sydd â ffocws mwy domestig, yn parhau i ddangos gwelliant. Mae gwerthiant y rhan fwyaf o gyfran y Llywodraeth yn Lloyds, a'r gwerthiant cyntaf o'u cyfranddaliadau yn RBS, yn gyffredinol wedi cael eu gweld yn gredyd positif.

Mae deddfwriaeth *"bail-in"*, sydd wedi ei weithredu'n llawn yn y DU, yr UDA a'r Almaen, yn sicrhau mai buddsoddwyr mawr gan gynnwys awdurdodau lleol fydd yn achub banciau sy'n methu yn y dyfodol, yn hytrach na threthdalwyr. Bydd gweddill yr Undeb Ewropeaidd yn dilyn yr un drefn yn Ionawr 2016, tra bod Awstralia, Canada a'r Swistir, yn mynd rhagddynt yn dda gyda eu cynlluniau eu hunain. Yn y cyfamser mae newidiadau i Gynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol y DU a chynlluniau Ewropeaidd tebyg yng Ngorffennaf 2015, yn golygu bod y rhan fwyaf o fuddsoddwyr y sector breifat yn awr wedi eu heithrio'n rhannol neu'n llawn o gyfrannu tuag at "bail-in". Mae'r risg credyd sy'n gysylltiedig â gwneud adneuon banc heb eu gwarantu, felly, wedi cynyddu yn gymharol a'r risg o opsiynau buddsoddi eraill sydd ar gael i'r Awdurdod; tra bod yr enillion ar adneuon arian parod, fodd bynnag, yn parhau i fod yn isel iawn.

## 2.3 Rhagolygon Cyfraddau Llog

Mae Arlingclose ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod, yn amcan y bydd y cynnydd cyntaf o 0.25% yng nghyfradd Banc y DU yn nhrydydd chwarter 2016, gan godi 0.5% y flwyddyn ar ôl hynny, gan setlo rhwng 2% a 3% mewn tipyn o flynyddoedd. Mae chwyddiant isel parhaus, twf byd-eang isel a phryderon posibl am sefyllfa y DU yn Ewrop yn golygu bod y risgiau i'r rhagolwg yma yn cael eu pwysoli tuag at i lawr.

Rhagwelir mai llwybr bâs ar i fyny fydd ar gyfer cynnyrch gilt tymor canolig, gan fod pryderon parhaus am Ardal yr Ewro, marchnadoedd sy'n datblygu a digwyddiadau geo-wleidyddol eraill yn pwyso ar archwaeth risg, tra bod y disgwyliadau chwyddiant yn parhau i fod yn isel. Mae Arlingclose yn amcan y bydd cynnyrch y gilt 10 mlynedd yn codi o'i lefel presennol o 2.0% o tua 0.3% y flwyddyn. Mae'r ansicrwydd ynghylch amseriad y cynnydd yng nghyfraddau llôg y DU a'r UDA yn debygol o ysgogi anweddolrwydd tymor-byr yng nghynnyrch

2.4 Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llôg mwy manwl a ddarparwyd gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod i'w weld yn ***Atodiad A***.

2.5 Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd y bydd buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.63% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd.

**3. Y Cyd-destun Lleol (Sefyllfa Benthyca net) – Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn**

**4. Y Strategaeth Fenthyca – Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn**

**5. Y Strategaeth Fuddsoddi**

5.1 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Awdurdod wedi amrywio rhwng £39 a £77 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hyn yn cynnwys balansau arian Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael eu pwlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2016/17 yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2016.

5.2 **Amcanion**

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

5.3 **Strategaeth**

O ystyried y cynnydd yn y risgiau a'r parhad yn yr enillion isel o fuddsoddiadau byrdymor ansicredig, mae'r Awdurdod yn bwriadu arallgyfeirio i ddosbarthiadau o asedau sy'n fwy sicr a/neu sy'n cynnig enillion uwch yn ystod 2016/17. Ar hyn o bryd mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan yr Awdurdod wedi'i fuddsoddi mewn adneuon banc anwarantedig, tystysgrifau adneuon a chronfeydd marchnadoedd arian. Bydd yr arallgyfeirio felly'n cynrychioli newid sylweddol yn y strategaeth dros y flwyddyn i ddod.

5.4 Gall yr Awdurdod fuddsoddi'r cronfeydd dros ben sydd ganddo gydag unrhyw fath o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y cyfyngiadau arian (mesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo**

| Cyfradd Credyd | Banciau Ansicredig | Banciau â Sicrwyd | Llywodraeth | Corfforaethau | Darparwyr Cofrestredig |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth DU | d/b | d/b | £ diderfyn<br>50 mlynedd | d/b | d/b |
| AAA | 5%<br>5 mlynedd | 10%<br>20 mlynedd | 10%<br>50 mlynedd | 5%<br>20 mlynedd | 5%<br>20 mlynedd |
| AA+ | 5%<br>5 mlynedd | 10%<br>10 mlynedd | 10%<br>25 blynedd | 5%<br>10 blynedd | 5%<br>10 blynedd |
| AA | 5%<br>4 blynedd | 10%<br>5 mlynedd | 10%<br>15 blynedd | 5%<br>5 blynedd | 5%<br>10 blynedd |
| AA- | 5%<br>3 blynedd | 10%<br>4 blynedd | 10%<br>10 mlynedd | 5%<br>4 blynedd | 5%<br>10 blynedd |
| A+ | 5%<br>2 flynedd | 10%<br>3 blynedd | 5%<br>5 mlynedd | 5%<br>3 blynedd | 5%<br>5 blynedd |
| A | 5%<br>13 mis | 10%<br>2 flynedd | 5%<br>5 mlynedd | 5%<br>2 flynedd | 5%<br>5 blynedd |
| A- | 5%<br>6 mis | 10%<br>13 mis | 5%<br>5 mlynedd | 5%<br>13 mis | 5%<br>5 blynedd |
| BBB+ | 2.5%<br>100 diwrnod | 5%<br>6 mis | 2.5%<br>2 flynedd | 2.5%<br>6 mis | 2.5%<br>2 flynedd |
| BBB | 2.5%<br>Diwrnod nesaf yn unig | 5%<br>100 diwrnod | d/b | d/b | d/b |
| Dim | £1m<br>6 mis | d/b | 10%<br>25 blynedd | £50,000<br>5 mlynedd | 5%<br>5 mlynedd |
| Cronfeydd wedi eu cyfuno | 10% mesul gronfa | | | | |

5.5 **Statws Credyd**

Gwneir penderfyniadau buddsoddi drwy gyfeirio at y statws credyd hirdymor isaf sydd wedi'i gyhoeddi gan Fitch, Moody's neu Standard & Poor's. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbartïon.

5.6 **Banciau Ansicredig**

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Mae buddsoddiadau ansicredig gyda banciau â ganddynt statws BBB wedi'u cyfyngu i adneuon dros nôs ym manc cyfrif cyfredol yr Awdurdod Barclays Bank plc.

5.7 **Banciau â Sicrwydd**

Bondiau gorchuddiedig, cytundebau adbrynu o chwith a threfniadau gyda sicrwydd cyfochrog gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad, er bod hynny'n annhebygol, ac mae'n golygu eu bod wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Tra nad oes unrhyw statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, bydd statws credyd yn bodoli ar gyfer y sicrwydd cyfochrog sy'n sail i'r buddsoddiad. Defnyddir y statws

uchaf o’r statws credyd sicrwydd cyfochrog a'r statws credyd gwrthbarti i benderfynu ar y cyfyngiadau o ran arian parod ac amser. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a’r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na’r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

5.8 **Llywodraeth**

Benthyciadau, bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygu amlochrog. Ni fyddai’r buddsoddiadau hyn yn destun *‘bail-in’*, a bychan iawn yw'r risg o fethdalu. Nid oes cyfyngiad ar faint y buddsoddiadau y gellir eu gwneud gyda Llywodraeth Canolog y DU am hyd at 50 mlynedd.

5.9 **Corfforaethau**

Benthyciadau, bondiau a phapur masnachol a gyhoeddir gan gwmnïau ac eithrio banciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw’r buddsoddiadau hyn yn destun *‘bail-in’* ond maent yn agored i'r risg y gallai'r cwmni ddod yn fethdalwr. Dim ond fel rhan o bŵl amrywiol y gwneir benthyciadau i gwmnïau heb statws er mwyn lledaenu’r risg yn eang.

5.10 **Darparwyr Cofrestredig**

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi’u sicrhau ar asedau Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig, a elwid gynt yn Gymdeithasau Tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio’n llym gan yr Asiantaeth Tai a Chymunedau ac fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

5.11 **Cronfeydd wedi’u cyfuno**

Cyfranddaliadau mewn dulliau buddsoddi amrywiol sy’n cynnwys unrhyw un o’r mathau o fuddsoddiadau a restrwyd uchod, ynghyd â chyfranddaliadau ecwiti ac eiddo. Y fantais i’r rhain yw bod y risgiau buddsoddi wedi’u gwasgaru’n ehangach, a bod gwasanaethau rheolwr proffesiynol y gronfa ar gael drwy dalu ffi. Bydd Cronfeydd Marchnadoedd Arian tymor byr sy’n cynnig diddymu ar yr un diwrnod ac anweddolrwydd isel neu dim o gwbl yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc lle ceir mynediad ar unwaith, tra bydd cronfeydd wedi’u cyfuno y mae eu gwerth yn newid yn ôl prisiau’r farchnad ac/neu a chanddynt gyfnod rhybudd yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau buddsoddi hirach.

Mae cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo yn cynnig gwell enillion hirdymor, ond maent yn fwy anwadal yn y tymor byr. Mae’r rhain yn caniatáu i’r Awdurdod ehangu i ddosbarthiadau o asedau heblaw am arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a’u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, maent ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Awdurdod yn cael eu monitro’n gyson.

5.12 **Cronfa Benthyciadau Lleol – Ddim yn berthnasol i’r Gronfa Bensiwn**

5.13 **Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

5.14 **Gwybodaeth Arall ar Ddiogelwch Buddsoddiadau**

Mae'r Awdurdod yn deall bod graddau statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfenwid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel a ddigwyddodd yn 2008 ac yn 2011, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian yr Awdurdod, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn peri gostyngiad yn lefel yr incwm a geir ar fuddsoddiadau, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

5.15 **Buddsoddiadau Penodedig**

Mae Canllaw LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:

- sydd ar ffurf punnoedd sterling,
- sy'n ddyledus i gael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na chânt eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, a
- rhai a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
  - o Llywodraeth y DU,
  - o awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, neu
  - o gyda chorff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliadau sydd ag "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd gyda chyfradd credyd A- neu uwch.

5.16 **Buddsoddiadau Amhenodedig**

Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig yn cael ei gategoreiddio fel buddsoddiad amhenodedig. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwlad tramor. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly'n gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir h.y. y rheini sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu hwy ar ôl dyddiad y trefniant; y rheini gaiff eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, megis cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill; a buddsoddiadau gyda chyrff a rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o ansawdd credyd uchel. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig i'w gweld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir | £40m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian | £40m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn cronfeydd cyfunedig | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau heb statws credyd neu gyda statws sy'n is na [A-] | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau (heblaw cronfeydd cyfunedig) mewn gwledydd tramor sydd â statws sy'n is na [AA+] | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig | £80m |

5.17 **Cyfyngiadau Buddsoddi**

Rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ac arian y Gronfa Bensiwn sydd ar gael i gyfarch colledion ar fuddsoddiadau yn £56 miliwn ar 31 Mawrth 2016. Er mwyn sicrhau na fydd mwy na 15% o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn cael eu rhoi mewn perygl pe bai un buddsoddiad sengl yn diffygdalu, yr uchafswm fydd yn cael ei fenthyg i unrhyw sefydliad unigol (ar wahân i Lywodraeth y DU) fydd £8 miliwn. Bydd grŵp o fanciau dan yr un berchnogaeth neu grŵp o gronfeydd dan yr un rheolwyr yn cael eu trin fel sefydliad unigol er dibenion cyfyngiadau. Rhoddir cyfyngiadau hefyd ar fuddsoddiadau yng nghyfrifon enwebedig broceriaid (e.e. King & Shaxson), gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel a ganlyn. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfunedig a banciau datblygu amlochrog yn cyfri yn erbyn cyfyngiad i unrhyw gwlad tramor unigol, gan bod y risg wedi ei amryfalu dros nifer o wledydd.

**Tabl 4: Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £8m yr un |
| Llywodraeth Ganolog y DU | anghyfyngedig |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £8m fesul grŵp |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolwyr | £20m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £40m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £8m fesul gwlad |
| Darparwyr Cofrestredig | Cyfanswm o £20m |
| Buddsoddiadau Ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu | Cyfanswm o £8m |
| Benthyciadau i fusnesau bach | Cyfanswm o £8m |
| Cronfeydd Marchnad Arian | Cyfanswm o £40m |

5.18 **Rheoli hylifedd**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus.

**6. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys – Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn**

## 7. Eitemau Eraill

7.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA neu Lywodraeth Cymru.

7.2 **Polisi ar Ddefnyddio Cytundebau Deilliadau**
Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd wedi eu cyfuno a thrafodion sy'n dechrau yn y dyfodol, yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol â'r risg cyffredinol i'r strategaeth rheolaeth trysorlys.

7.3 **Hyfforddiant Buddsoddi**
Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys yr Awdurdod am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Mae staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Caiff staff perthnasol eu hannog hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA a sefydliadau priodol eraill.

7.4 **Ymgynghorwyr Buddsoddi**
Mae'r Awdurdod wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan Bennaeth yr Adran Gyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

7.5 **Buddsoddi Arian a Fenthyciwyd cyn i'r Angen Godi – Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn**

## 8. Goblygiadau Ariannol – Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

**9.** **Ystyried Opsiynau Eraill**

Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i'w fabwysiadu gan awdurdodau lleol. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet Adnoddau, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau o ran rheoli risgiau.

| Dewis Arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risgiau |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrthbartïon ac/neu am gyfnod byrrach | Bydd incwm ar y llôg yn is | Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er byddai unrhyw golledion yn fwy |
| Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrthbartïon ac/neu am gyfnod hirach | Bydd incwm ar y llôg yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er byddai unrhyw golledion yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llôg sefydlog hirdymor | Bydd costau llôg dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn drwy incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llôg hirdymor yn fwy sicr |
| Benthyciadau byr-dymor newidiol yn hytrach na chyfraddau hirdymor sefydlog | Bydd costau llôg dyledion yn is i gychwyn | Bydd y cynnydd yn y costau llôg ar ddyledion yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae'r arbediad ar lôg y ddyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir<br><br>Gallai'r premiymau uchel am ad-dalu'r ddyled fod yn uwch nag unrhyw arbedion | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai diffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llôg hirdymor yn llai sicr |

**Atodiad A – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Ionawr 2016**

**Rhagdybiaethau sylfaenol:**

- Meddalu fu hanes twf economaidd y DU yn Ch3 2015 ond bu iddo barhau'n gymharol gadarn; yr amcan cyntaf ar gyfer y chwarter oed 0.5% a syrthiodd twf flwyddyn ar ôl blwyddyn rhyw fymryn i 2.3%. Cafodd deilliant negyddol mewn adeiladu ei osod yn erbyn deilliant cymharol gryf mewn gwasanaethau, fodd bynnag, mae'r rhagolygon yn awgrymu y gallai pethau wella yn y maes adeiladu yn y dyfodol.
- Gwariant aelwydydd sydd wedi gweithredu fel prif yrrwr twf mewn GDP yn ystod 2014 a 2015 ac mae'n parhau'n allweddol i dwf. Bydd treuliant yn parhau i gael ei gefnogi gan dwf mewn cyflogau real ac incwm gwario.
- Yn y tri mis hyd Awst, bu i enillion cyfartalog (yn cynnwys enillion bonws) gynyddu 3.0%. O ystyried y lefel chwyddiant isel, mae gwir enillion a thwf incwm yn parhau ar lefelau cymharol gryf ac fe allai hyn fwydo'n uniongyrchol at gostau uned llafur ac incwm gwario aelwydydd. Gallai gwella twf cynhyrchedd gefnogi'r twf mewn cyflogau yn y tymor canolig. Un o'r ffactorau sy'n cael eu monitro'n ofalus gan yr MPC yw datblygiad twf cyflogau.
- Mae dangosyddion buddsoddi busnes yn parhau i roi awgrym o dwf cryf. Fodd bynnag, efallai y bydd y rhagolygon ar gyfer buddsoddiadau busnes yn cael eu heffeithio yn sgil refferendwm yr UE sydd ar y gweill, gan gynyddu'r ansicrwydd sy'n bodoli ynghylch twf byd-eang a'r digwyddiadau annisgwyl diweddar yn y farchnad ariannol.
- Mae chwyddiant yn hynod isel ar hyn o bryd, a chyda gostyngiad arall mewn prisiau nwyddau, mae'n debygol y bydd hyn yn parhau dros y 12 mis nesaf. Mae'n debygol y bydd y gyfradd CPI yn cynyddu tua diwedd 2016.
- Mae twf China wedi arafu ac mae economi'r wlad yn perfformio'n is na'r disgwyl; yn ei dro bydd hyn yn effeithio ar y gweithgarwch mewn gwledydd sydd â chyswllt economaidd agos â China; bydd yr arafwch a'r gwendid yn y farchnad yn lleihau'r galw am ei nwyddau. Bydd ymyriadau eraill yn dilyn dadbrisiad diweddar China yn cadw sterling yn gryf yn erbyn sawl arian arall ac yn gwasgu ar chwyddiant mewnforio.
- Mae data marchnad lafur yr UD a dangosyddion economaidd yn awgrymu nad yw'r cynni byd-eang diweddar wedi effeithio ar adferiad America. Roedd cynnydd cyfraddau llog swyddogol gan y Gronfa Ffederal i 0.5% ym mis Rhagfyr 2015.
- Bydd cyfraddau mwy hirdymor yn cael eu heffeithio gan ansicrwydd rhyngwladol a phwysau chwyddiant byd-eang gwannach.

**Rhagolygon:**

- Mae Arlingclose yn rhagweld y gwelir y cynnydd cyntaf yng Nghyfradd Banc y DU yn Ch3 2016. Mae gwendid pellach mewn chwyddiant, a disgwyliadau'r MPC ar ei gyfer, yn awgrymu na fydd polisïau’n cael eu tynhau hyd nes ail hanner y flwyddyn. Mae risgiau’n parhau ar yr ochr negyddol. Mae Arlingclose yn rhagweld cynnydd araf yn y Gyfradd Banc, ac y bydd y lefel briodol yn is na'r norm blaenorol ac y bydd rhwng 2% a 3%.
- Rydym yn rhagweld y bydd enillion gilt yn dilyn llwybr bas am i fyny yn y tymor canolig, oherwydd pryderon parhaus am Ardal yr Ewro, marchnadoedd sydd ar ddyfod a digwyddiadau daear-wleidyddol eraill, gan bwyso i mewn ar beryglon, tra bod disgwyliadau chwyddiant yn parhau'n isel.

- Mae’n debyg y bydd yr ansicrwydd yn ymwneud ag amseriad cynnydd yng nghyfraddau llog y DU a’r UDA, a'r gwendid mewn twf byd-eang, yn ysgogi anweddolrwydd byrdymor mewn enillion gilt.

| | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 | Dec-16 | Mar-17 | Jun-17 | Sep-17 | Dec-17 | Mar-18 | Jun-18 | Sep-18 | Dec-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Official Bank Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| **Arlingclose Central Case** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.75** | **0.75** | **1.00** | **1.00** | **1.25** | **1.25** | **1.50** | **1.50** | **1.75** | **1.75** |
| **Downside risk** | | | | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.75 | -0.75 | -1.00 | -1.00 | -1.25 | -1.25 |
| **3-month LIBID rate** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| **Arlingclose Central Case** | **0.55** | **0.60** | **0.70** | **0.80** | **0.95** | **1.05** | **1.15** | **1.30** | **1.40** | **1.55** | **1.65** | **1.80** | **1.85** |
| **Downside risk** | | -0.20 | -0.30 | -0.45 | -0.55 | -0.65 | -0.80 | -0.90 | -1.05 | -1.10 | -1.20 | -1.20 | -1.20 |
| **1-yr LIBID rate** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.25 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 |
| **Arlingclose Central Case** | **1.10** | **1.20** | **1.35** | **1.45** | **1.55** | **1.70** | **1.80** | **1.95** | **2.00** | **2.10** | **2.15** | **2.15** | **2.15** |
| **Downside risk** | -0.15 | -0.25 | -0.35 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.85 | -0.95 | -1.10 | -1.15 | -1.25 | -1.25 | -1.25 |
| **5-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| **Arlingclose Central Case** | **1.50** | **1.55** | **1.60** | **1.70** | **1.80** | **1.90** | **2.00** | **2.10** | **2.20** | **2.25** | **2.30** | **2.35** | **2.35** |
| **Downside risk** | -0.35 | -0.45 | -0.55 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.90 | -1.00 | -1.10 | -1.15 | -1.20 | -1.25 | -1.25 |
| **10-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| **Arlingclose Central Case** | **2.00** | **2.05** | **2.10** | **2.20** | **2.30** | **2.40** | **2.50** | **2.60** | **2.65** | **2.70** | **2.75** | **2.80** | **2.80** |
| **Downside risk** | -0.35 | -0.45 | -0.55 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.90 | -1.00 | -1.10 | -1.15 | -1.20 | -1.25 | -1.25 |
| **20-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| **Arlingclose Central Case** | **2.45** | **2.50** | **2.55** | **2.55** | **2.60** | **2.65** | **2.70** | **2.75** | **2.80** | **2.85** | **2.90** | **2.95** | **2.95** |
| **Downside risk** | -0.30 | -0.40 | -0.50 | -0.55 | -0.65 | -0.75 | -0.85 | -0.95 | -1.05 | -1.10 | -1.15 | -1.20 | -1.20 |
| **50-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | |
| **Upside risk** | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| **Arlingclose Central Case** | **2.45** | **2.50** | **2.55** | **2.60** | **2.65** | **2.70** | **2.75** | **2.80** | **2.85** | **2.90** | **2.95** | **3.00** | **3.00** |
| **Downside risk** | -0.25 | -0.35 | -0.45 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.90 | -1.00 | -1.05 | -1.10 | -1.15 | -1.15 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **17 MAWRTH 2016** |
| **PWRPAS** | **Mabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi diwygiedig yn dilyn y broses ymgynghori** |
| **TEITL** | **DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Yn dilyn yr adroddiad i'r pwyllgor hon ym mis Tachwedd 2015 mae'r newidiadau a gafodd eu cyflwyno wedi cael eu cynnwys yn y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi. Mae'r ddogfen ddiwygiedig wedi bod allan i ymgynghoriad am wyth wythnos gyda phartïon a diddordeb ac mae angen i'r pwyllgor mabwysiadu'r fersiwn terfynol yn ffurfiol.

## 2. CYFYNGIADAU AR FUDDSODDIADAU

**2.1** Cynhaliwyd y broses ymgynghori gyda'r partïon gyda diddordeb gan gynnwys yr holl gyflogwyr yn y gronfa, rheolwyr buddsoddi a'r ymgynghorydd buddsoddi o ganol mis Rhagfyr i ganol mis Chwefror a mis Awst. Roedd Hymans Robertson ymgynghorydd buddsoddi'r gronfa yn argymell rhai newidiadau sydd wedi cael eu hymgorffori yn y ddogfen. Ni dderbyniwyd ymatebion eraill na gwrthwynebiad.

**2.2** Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi wedi cael ei newid er mwyn symleiddio'r iaith. Mae'r newidiadau yn y gofynion mewn llythrennau italeg yn Atodiad A.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Argymhellir bod y pwyllgor yn mabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yn ffurfiol.

# Cronfa Bensiwn Gwynedd
# Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB)

## 1. Cefndir

1.1 Hwn yw'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (y "Datganiad) (DEB) sydd yn ofynnol o dan y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (y "Rheoliadau 2009"). Mae'r rheoliadau yma hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol nodi yn eu datganiad i ba raddau y maent yn cydymffurfio efo'r egwyddorion llywodraethu da a elwir yn Egwyddorion Myners. Bwriad y ddogfen yma yw bodloni anghenion y rheoliadau hyn.

1.2 Mabwysiadwyd y Datganiad gan y Pwyllgor Pensiynau sy'n gweithredu ar awdurdod dirprwyedig Cyngor Gwynedd sef yr awdurdod gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa"). Rhaid i'r Awdurdod Gweinyddol adolygu'r Datganiad o bryd i'w gilydd yn unol ag unrhyw newid perthnasol mewn polisi. Wrth baratoi'r ddogfen yma mae'r Pwyllgor wedi cymryd cyngor proffesiynol oddi wrth ymgynghorwyr ac actiwari y gronfa, Hymans Robertson ac wedi derbyn ac ystyried sylwadau ysgrifenedig gan Reolwyr Buddsoddi'r cynllun.

## 2. Trefniadau Strwythurol a Rheolaethol y Gronfa

2.1 Mae'r Cyngor wedi dirprwyo rheolaeth buddsoddi'r cynllun i'r Pwyllgor Pensiynau sy'n penderfynu ar y polisi buddsoddi mwyaf addas i gyfarfod a chyfrifoldebau'r cynllun ac mae'r cyfrifoldeb eithaf am y strategaeth buddsoddi yn gorwedd gyda hwy. Mae'r buddsoddiadau a'r perfformiad yn cael eu monitro yn gyson gan y pwyllgor ac fe'i cynghorir gan ymgynghorwyr proffesiynol.

2.2 Mae'r Datganiad yn amlinellu'r egwyddorion buddsoddi sydd yn rheoli polisi buddsoddi'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo rheolaeth buddsoddiadau'r Gronfa i reolwyr buddsoddi proffesiynol ac fe gyfyngir ar eu gweithgareddau gan gytundebau rheolaeth buddsoddiadau manwl.

2.3 Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Gweinyddol ac sy'n gyfrifol am reoli'r Gronfa yn unol â'r Rheoliadau.

2.4 Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn gweithredu rôl yr Awdurdod Gweinyddol. Mae ganddo awdurdod dirprwyedig llawn i wneud penderfyniadau ar faterion y Gronfa. Yn benodol mae'n:

- penderfynu ar yr Egwyddorion Buddsoddi ac yn sicrhau bod y buddsoddiadau'n ddigon amrywiol;penderfynu ar strwythur rheoli'r gronfa;
- adolygu perfformiad buddsoddi bob chwarter;
- penodi a chael gwared ar Reolwyr y Gronfa, ar Geidwaid y Gronfa ac ar unrhyw ymgynghorwyr allanol;
- paratoi'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, monitro cydymffurfiad gyda'r Datganiad ac adolygu ei gynnwys o bryd i'w gilydd;
- gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun gweinyddu pensiwn.

2.5 *Mae'r Bwrdd Pensiwn yn gorff nad ydyw'n gwneud penderfyniadau sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddol i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun, deddfwriaethau eraill sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu a gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau. Yn ogystal, bydd y Bwrdd yn cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddol i sicrhau llywodraethiad a gweinyddiad effeithiol ac effeithlon y Cynllun. Bydd y Bwrdd Pensiwn yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.*

2.6 Mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn gyfrifol am :

- fuddsoddi asedau'r Gronfa yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, y cyfyngiadau a osodir gan ddogfennau polisi'r Gronfa â'r cytundebau rheoli buddsoddiadau manwl;
- dosbarthu'r asedau yn dactegol o amgylch y meincnod strategol a dewis cyfranddaliadau o fewn dosbarthiadau ased;
- baratoi adroddiad chwarterol gan gynnwys adolygu perfformiad buddsoddi a mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor pan ofynnir iddynt;
- baratoi cadarnhad blynyddol bod eu gweithgareddau'n cydymffurfio gyda'r datganiad hwn,
- bleidleisio cyfranddaliadau yn unol â'r polisi a gyhoeddwyd ganddynt;
- darparu manylion mewn da bryd i State Street Global Services, y cwmni sydd yn mesur perfformiad y Gronfa.

2.7 Mae'r Ceidwaid yn gyfrifol am:

- gadw asedau'r Gronfa yn ddiogel, setlo masnachu a delio gyda gweithrediadau corfforaethol
- eu cydymffurfiad eu hunain gyda'r ddeddfwriaeth gyfredol,
- ddarparu datganiadau misol i'r awdurdod gweinyddol o asedau'r cynllun ynghyd â manylion yr holl drafodion a wnaethpwyd yn ystod y mis,
- baratoi manylion mewn da bryd i State Street Global Services, y cwmni sydd yn mesur perfformiad y Gronfa.
- gasglu incwm ac adennill treth.

2.8 Mae'r Ymgynghorydd Buddsoddi yn gyfrifol am:

- gynghori'r Pwyllgor Pensiynau ar eu strategaeth a'u polisi buddsoddi,
- gynorthwyo'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Pensiynau wrth
  - ddewis a phenodi rheolwyr buddsoddi a cheidwaid,
  - monitro perfformiad y rheolwyr Buddsoddi yn rheolaidd;
  - baratoi ac adolygu'r ddogfen yma.

2.9 Mae'r Actiwari yn gyfrifol am:

- gynorthwyo'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Pensiynau i baratoi'r ddogfen yma, a
- darparu cyngor ar aeddfedrwydd y cynllun a'i lefel gyllido er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i bwyso a mesur amcanion tymor byr a thymor hir y Gronfa Bensiwn.

2.10 Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am:

- sicrhau cydymffurfiad gyda'r ddogfen hon a dod ag unrhyw wahaniaethau i sylw'r Pwyllgor Pensiynau,
- sicrhau bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yn cael ei diweddaru'n unol a'r rheoliadau, a
- baratoi adroddiad blynyddol fydd yn cynnwys ymysg pethau eraill, cyfeiriad at ganlyniadau buddsoddi.

## 3. Disgrifiad o Ymrwymiadau'r Cynllun

3.1 Mae'r Gronfa yn gynllun budd diffiniedig sydd, yn hanesyddol, wedi darparu buddion sy'n seiliedig ar gyflog terfynol yr aelodau. O 1 Ebrill 2014, newidiwyd y cynllun o gynllun cyflog terfynol i gynllun cyfartaledd gyrfa, a hynny yn sgil deddfwriaeth. Mae pensiwn pob aelod yn cael ei nodi yn nhermau fformiwla sy'n seiliedig ar gyflog a gwasanaeth, ac nid yw'n cael ei ddylanwadu gan yr enillion buddsoddi a geir ar asedau'r cynllun. Gosodir allan manylion llawn am fuddion y cynllun yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

3.2 Mae'n rhaid i bob aelod gweithredol o'r cynllun dalu cyfraniadau pensiwn sy'n seiliedig ar ganran penodol o'u cyflog pensiynadwy fel y diffinnir yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

3.3 Amcan ariannol y Pwyllgor yw ei hariannu, fel bod holl fuddion cronedig y Gronfa, mewn amodau marchnad gyffredin, yn cael eu gwarchod yn llawn gan werth asedau'r Gronfa (fel y'i cyfrifir yn y prisiant tair flynyddol) a bod lefel priodol o gyfraniadau yn cael eu cytuno gan y cyflogwr i fodloni cost yr holl fuddion i'r dyfodol fydd yn cronni. I aelodau sy'n weithwyr, bydd y buddion yn dibynnu ar y gwasanaeth a gwblhawyd ond bydd hefyd yn ystyried codiadau cyflog yn y dyfodol.

3.4 Ar gyngor actiwari'r cynllun fe benderfynir ar raddfa cyfraniadau'r cyflogwyr bob tair blynedd, ac maent yn cael eu monitro yn y cyfnod rhwng y prisiant. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cael eu cynghori gan yr actiwari o unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r Gronfa yn ystod y cyfnod rhwng y prisiant.

## 4. Amcanion y Gronfa

4.1 Mae'r Pwyllgor wedi cyfieithu ei amcanion i feincnod dyrannu asedau strategol addas ar gyfer y Gronfa (Gweler Atodiad 1). Adlewyrchir y meincnod strategol yn y strwythur buddsoddi a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor; mae hyn yn cynnwys cymysgedd o fandadau ar wahân ac wedi'u pŵlio, a mandadau gweithredol a goddefol i reolwyr. Mae meincnod y Gronfa yn gyson â barn y Pwyllgor ar y cydbwysedd priodol rhwng cynhyrchu elw boddhaol ar fuddsoddiadau yn yr hirdymor, wrth ystyried anweddolrwydd y farchnad a risg a natur rhwymedigaethau'r Gronfa.

4.2 Mae'r Pwyllgor yn monitro'r strategaeth fuddsoddi mewn perthynas â'r meincnod dyrannu asedau a gytunwyd. Bwriedir i'r strategaeth fuddsoddi gael ei hadolygu o leiaf unwaith bob tair blynedd yn dilyn prisiad actiwaraidd y Gronfa.

## 5. Polisi ag Amcanion Buddsoddi

5.1 Y Polisi Buddsoddi yw penodi Rheolwyr Cronfa arbenigol gyda meincnodau perfformiad clir ac i osod yr atebolrwydd mwyaf am berfformiad yn erbyn y meincnodau ar ysgwyddau'r Rheolwr Cronfa. Adroddir ar weithgarwch a thrafodion cyfredol y Rheolwyr unigol i'r Pwyllgor Pensiynau bob chwarter. Tra bo'u perfformiad yn cael ei fonitro bob chwarter ac yn cael ei adolygu bob blwyddyn, fe asesir perfformiad yn seiliedig ar gyfnod treigl o dair blynedd.

### 5.2 Math o Fuddsoddiadau i'w dal

5.2.1 Rhaid i Reolwyr y Gronfa sicrhau bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud yn unol â Rheoliadau CPLlL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu elfen o hyblygrwydd o fewn terfynau buddsoddi i gynlluniau pensiwn, wrth gynnal yr egwyddorion sylfaenol o bwyll ac amrywiaeth.

5.2.2 Mae’r ddeddfwriaeth gyfredol yn galluogi’r Gronfa i fuddsoddi mewn buddsoddiadau a ddyfynnwyd a rhai na ddyfynnwyd ym marchnadoedd y DU a thramor, gan gynnwys ecwiti, ecwiti preifat, isadeiledd, bondiau llog sefydlog a bondiau llog sy'n gysylltiedig â'r mynegai, arian parod, eiddo a phrif nwyddau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gronfeydd cyfun.

5.2.3 Yn ogystal, gall y Gronfa ddefnyddio deilliadau yn uniongyrchol neu drwy bŵlio arian i fuddsoddi yn y cynnyrch hwn, er diben rheoli portffolio yn effeithlon neu gyfyngu ar risgiau penodol.

5.2.4 Mae’r Pwyllgor Pensiynau o'r farn bod pob un o’r dosbarthiadau yma o fuddsoddiad yn addas o ystyried amgylchiadau’r Gronfa.

5.2.5 **Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) Atodlen 1 Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau**

*Yn eu cyfarfod ar 10 Tachwedd 2015, penderfynodd y Pwyllgor Pensiynau ar y newidiadau canlynol i’r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau:*

- *Cynnydd mewn unrhyw gytundeb yswiriant unigol ble mae’r cynlluniau buddsoddi cyfunol a sefydlir gan y cwmnïau yn cael eu rheoli gan un corff, o 25% i 35% (y cyfyngiad uchaf a ganiateir yn Atodlen 1 i’r Rheoliadau 2009). Cyn cymryd y penderfyniad, gofynnodd y Pwyllgor am gyngor priodol gan ei Ymgynghorydd Buddsoddi, Hymans Robertson LLP, mewn perthynas ag effaith y cynnydd ar risg o fewn y gronfa yn ei gyfanrwydd a sut mae’r Pwyllgor yn monitro a rheoli’r risg hwnnw. Gwnaed y penderfyniad oherwydd bod y cyfyngiad o 35% mewn perthynas i gytundebau yswiriant yn caniatáu’r Gronfa gadw ei holl asedau goddefol gyda Blackrock yn hytrach na gorfod defnyddio dau reolwr goddefol. Mae cadw’r asedau gydag un rheolwr yn galluogi ymgymryd unrhyw waith cydbwyso neu drosglwyddiadau asedau yn fwy cost effeithiol.*

- *Cynyddu’r cyfyngiad ar gyfer yr holl gyfraniadau i bartneriaeth unigol i 5% a chynyddu’r cyfyngiad ar gyfer holl gyfraniadau i bartneriaethau i 15% (y cyfyngiad uchaf a ganiateir yn Atodlen 1 i’r Rheoliadau 2009). Cyn cymryd y penderfyniad, gofynnodd y Pwyllgor am gyngor priodol gan ei Ymgynghorydd Buddsoddi, Hymans Robertson LLP, mewn perthynas ag effaith y cynnydd ar risg o fewn y gronfa yn ei gyfanrwydd a sut mae’r Pwyllgor yn monitro a rheoli’r risg hwnnw. Gwnaed y penderfyniad oherwydd bod y cyfyngiadau uwch ar fuddsoddiadau partneriaeth yn caniatáu’r Gronfa i wella amrywiad yr asedau twf. Ar hyn o bryd mae’r cyfyngiadau yma yn perthyn i’r dyraniadau targed ar gyfer ecwiti preifat (5%) ac isadeiladwaith (2.5%). Er hynny, defnyddir strwythurau partneriaeth i gael mynediad i fathau eraill o fuddsoddiad a allai hefyd fod yn ddeniadol i’r Gronfa yn y dyfodol fel dulliau preifat o ddyled neu eiddo byd-eang. Mae’r mathau hyn o fuddsoddiad yn caniatáu’r Gronfa, fel buddsoddwr tymor hir, i elwa ar y premiwm ar asedau anhylif.*

5.3 **Cydbwysedd rhwng gwahanol fath o Fuddsoddiadau**

5.3.1 Mae cytundeb mewn lle ar gyfer bob Rheolwr Cronfa sy’n gosod allan y meincnod perthnasol, y targed ar gyfer perfformiad, yr amrediad ar ddosbarthiad asedau lle bo hynny’n berthnasol ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau fel y penderfynwyd gan y Pwyllgor.

5.3.2 Mae’r Pwyllgor wedi cytuno ar feincnod sydd yn rhoi cydbwysedd effeithlon rhwng risg ac enillion, yn sgil proffil ymrwymiadau a lefel ariannu’r Gronfa.

5.4 **Risg**

5.4.1 Mae'n rhaid i'r Gronfa reoli (yn hytrach nag osgoi) risg ar y marchnadoedd buddsoddi er mwyn gallu cael ei gwobrwyo mewn ffurf enillion ariannol ar asedion. Fodd bynnag, mae'r Gronfa yn agored i nifer o risgiau sy'n fygythiad i'r Gronfa gwrdd â'i hamcanion. Y prif risgiau (bygythiadau) sy'n effeithio ar y Gronfa yw:

5.4.2 **Risgiau ariannu:**

- Diffyg cyfatebiaeth ariannol - Y risg y bydd asedau'r Gronfa yn methu tyfu yn unol â chostau datblygol cwrdd ag ymrwymiadau'r Gronfa; neu'r risg bod cynyddiadau annisgwyl mewn chwyddiant yn cynyddu'r taliadau buddion pensiwn ac na fydd asedau'r Gronfa yn tyfu yn ddigon cyflym i gwrdd â'r gost ychwanegol.
- Newid demograffig - Y risg bod hirhoedledd yn gwella a bod ffactorau demograffig eraill yn newid gan gynyddu cost buddion y Gronfa.
- Risg systemig - Y posibilrwydd o fethiant cysylltiol a chydamserol o nifer o ddosbarthiadau o asedau a/neu reolwyr buddsoddiadau, gyda'r posibilrwydd o gael ei ddwysau gan 'haint' ariannol, yn arwain at gynnydd yn y gost o gwrdd ag ymrwymiadau'r Gronfa.

Mae'r Pwyllgor yn mesur a rheoli diffyg cyfatebiaeth ariannol mewn dwy ffordd. Fel y nodir uchod, maent wedi gosod meincnod strategol ar gyfer dyrannu asedau ar gyfer y Gronfa. Mae'n asesu risg yn berthynol i'r meincnod hwnnw drwy fonitro dyraniad asedau ac enillion ar fuddsoddiadau'r Gronfa yn berthynol i'r meincnod. Mae hefyd yn asesu risg yn berthynol i'r ymrwymiadau drwy fonitro cyflenwad o enillion meincnod yn berthynol i'r ymrwymiadau.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu marwoldeb a thybiadau demograffig eraill a allai ddylanwadu ar gost y buddion yn rheolaidd. Caiff y tybiadau hyn eu hystyried yn ffurfiol ym mhob prisiad tair flynyddol.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio lliniaru'r risg systemig drwy gael portffolio amrywiol, ond nid yw'n bosib gwneud darpariaeth benodol ar gyfer pob canlyniad posibl a allai godi o dan y pennawd hwn.

5.4.3 **Risgiau i asedau:**

- Canolbwyntied - Y risg y gallai dyraniad sylweddol i unrhyw un dosbarth ased penodol a'i danberfformiad yn berthynol i ddisgwyliadau arwain at broblemau i gwrdd ag amcanion ariannol.
- Anhylifdra - Y risg na all y Gronfa gwrdd â'i hymrwymiadau uniongyrchol oherwydd nad oes ganddi ddigon o asedau hylifol.
- Tanberfformiad rheolwr - Methiant gan reolwyr y gronfa i gyrraedd y gyfradd enillion ar fuddsoddiadau a dybiwyd wrth osod eu mandadau.

Mae'r Pwyllgor yn rheoli risg asedau fel â chanlyn. Mae'n darparu cyfyngiadau ymarferol rhag i fuddsoddiadau'r Gronfa wyro yn sylweddol o'r dull bwriedid drwy osod iddo'i hun ganllawiau amrywaithu a trwy fuddsoddi mewn ystod o fandadau buddsoddi, pob un gydag amcan penodol, meincnod perfformiad a phroses reoli sydd, pan mae'n cael ei gymryd gyda'i gilydd, yn cyfyngu risg o fewn ffiniau disgwyliedig y Pwyllgor. Drwy fuddsoddi ar draws ystod eang o asedau, yn cynnwys cyfranddaliadau a bondiau a ddyfynnir, mae'r Pwyllgor wedi cydnabod yr angen am rywfaint o fynediad i hylifedd yn y tymor byr. Drwy benodi nifer o reolwyr buddsoddi, mae'r Pwyllgor wedi ystyried y risg o danberfformiad gan unrhyw reolwr buddsoddi unigol.

5.4.4 **Risg gan ddarparwr arall**

- Risg trosglwyddo - Y risg o gael costau annisgwyl mewn perthynas â throsglwyddo asedau ymysg rheolwyr. Wrth gario allan trosglwyddiadau sylweddol, mae'r Pwyllgor yn cymryd cyngor proffesiynol ac yn ystyried penodi rheolwyr trosglwyddiadau arbenigol.
- Risg ceidwad – Y risg o golli hawliad economaidd i asedau'r Gronfa, pan maent yn cael eu dal gan geidwad neu pan maent yn cael eu masnachu.
- Methiant credyd - Y posibilrwydd bod gwrthbarti yn methu a chwrdd â'i ymrwymiadau.

Mae'r Pwyllgor yn monitro a rheoli risgiau yn y meysydd hyn drwy broses o graffu rheolaidd o'i ddarparwyr ac archwiliad o'r gweithrediadau maent yn eu gwneud ar gyfer y Gronfa.

5.5 **Yr Enillion a ddisgwylir ar Fuddsoddiadau**

5.5.1 Disgwylir i'r meincnod strategol gynhyrchu enillion yn y tymor hir, sydd yn uwch na'r enillion ar fuddsoddiadau a awgrymir yn y prisiant actiwaraidd. Diffinnir enillion buddsoddi fel cyfanswm y cyfraddau enillion (cyfuno twf cyfalaf ac incwm).

5.5.2 Mae mwyafrif o asedau'r Gronfa yn cael eu rheoli ar sail weithredol a disgwylir iddynt berfformio'n well na'i meincnod penodol dros y tymor hir. Felly, disgwylir i'r perfformiad buddsoddi a gyflawnir gan y Gronfa fod yn uwch na'r gyfradd enillion a dybiwyd gan yr actiwari ar gyfer ariannu'r ymrwymiadau ar sail barhaus.

5.6 **Gwerthu Buddsoddiadau**

5.6.1 Mae mwyafrif y stociau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'r Gronfa wedi eu dyfynnu ar y marchnadoedd stoc fwyaf a gallant gael eu gwerthu yn sydyn pe bai angen. Mae 10% o asedau'r Gronfa wedi eu buddsoddi mewn eiddo sy'n gymharol anhylif. Mae tua 5% o asedau'r Gronfa wedi eu Buddsoddi mewn ecwiti preifat ac is-adeiladwaith sydd yn gymharol anhylif, ond disgwylir i hyn godi i 7.5% dros y tymor byr.

## 6. Cymryd i ystyriaeth faterion Cymdeithasol, Amgylcheddol a Moesegol

6.1 Gyda golwg ar fuddsoddiadau cymdeithasol cyfrifol, mae'r Pwyllgor yn ystyriol o egwyddorion cyfreithiol sydd yn seiliedig ar benderfyniadau'r llysoedd ac sy'n berthnasol i bob cynllun pensiwn. Yn benodol nid oes hawl gan awdurdod gweinyddol i roddi buddion yr aelodau islaw gofynion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol. Perfformiad ariannol y Gronfa gydag amrywiaeth priodol a bod yn ddarbodus, sydd bwysicaf.

6.2 Mae'r Pwyllgor wedi dangos ei ymrwymiad at y Cod Stiwardiaeth gafodd ei gyhoeddi gan y Financial Reporting Council yn 2010. Nod y Cod yw gwella ansawdd yr ymrwymiad rhwng buddsoddwyr sefydliadol a chwmnïau er mwyn cynorthwyo gwellhad mewn dychweliadau tymor hir i gyfranddalwyr a gweithrediad effeithiol cyfrifoldebau llywodraethu. Mae'r Cod yn gosod ymarfer da ar gyfer ymgysylltiad gyda chwmnïau a fuddsoddir ynddynt.

6.3 Mae'r Gronfa yn aelod o'r Local Authority Pension Fund Forum (LAPFF) sydd yn bodoli er mwyn hyrwyddo diddordebau buddsoddi cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol ac i uchafu ei dylanwad fel cyfranddalwyr wrth hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol yn y cwmni y maent yn buddsoddi ynddynt. Mae'r LAPFF yn dod a nifer o gronfeydd pensiwn awdurdodau lleol at ei gilydd sydd yn rhoi cyfle i drafod materion buddsoddi a gweithrediad cyfranddalwyr. Mae gan y dylanwad a enillir trwy gydweithrediad y cronfeydd ar bryderon cyffredin potensial sylweddol mewn perthynas â chwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt. Gellir defnyddio'r dylanwad yma er mwyn mynd i'r afael a materion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol o fewn y cwmnïau a fuddsoddir ynddynt.

6.4 Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i fwrdd y cwmnïau mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt, roi ystyriaeth i faterion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol a drwy hynny gynyddu budd tymor hir y cyfranddalwyr. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i gyfarwyddwyr cwmni roi ystyriaeth i fudd tymor hir y cyfranddalwyr wrth reoli materion busnes y cwmni.

**7. Ymarfer hawliau gan gynnwys yr hawl pleidleisio sydd ynghlwm i rai buddsoddiadau**

7.1 Mae'r Pwyllgor wedi dirprwyo hawliau pleidleisio i'r Rheolwyr Cronfa ar y sail y byddant yn defnyddio hawliau pleidleisio gyda'r bwriad o gynnal neu gynyddu gwerth hirdymor i'r cyfranddaliwr. Yn unol â hynny, mae'r rheolwyr wedi cynhyrchu canllawiau ysgrifenedig sy'n nodi eu prosesau a'u hymarferion yn y cyswllt hwn. Anogir rheolwyr i bleidleisio yn unol â'u canllawiau yng nghyswllt yr holl benderfyniadau yng nghyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac arbennig y cwmnïau.

**8. Benthyca Stoc**

8.1 Caniateir benthyca stoc ond mae'n ddibynnol ar gymeradwyaeth benodol. Mae'r polisi ar fenthyca stoc yn adlewyrchu natur y mandadau sydd wedi eu rhoi gan y Pwyllgor Pensiynau i'r rheolwyr buddsoddi, gan gynnwys mandadau cydgyfrannog a rhai ar wahân.

**9. Cydymffurfiad**

9.1 Bydd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarchodwyr yn cadarnhau yn flynyddol i'r Pwyllgor, bod eu gweithgareddau mewn perthynas â'r rhan o'r Gronfa y mae ganddynt reolaeth drosti, wedi cydymffurfio gyda'r cyfyngiadau buddsoddi sydd yn y ddogfen hon (cyn belled â bod y Rheolwr yn cael ei hysbysu o unrhyw newidiadau) ac yn benodol a osodir allan yn y cytundebau rheoli buddsoddiadau.

9.2 Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol am asesu'r risg a gymerir gan y cynllun ar lefel fyd-eang, h.y. gan dybio bod portffolios y rheolwyr unigol wedi cael eu cyfuno ac am fonitro perfformiad y cynllun ar lefel fyd-eang a fesul rheolwr.

9.3 Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am fonitro perfformiad ansoddol y rheolwyr a'r ceidwaid a gyflogir, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rheolwyr buddsoddi/ceidwaid addas i'r cynllun. Mae'r agweddau ansoddol yma yn cynnwys, ymhlith rhai eraill, newidiadau mewn perchnogaeth, newidiadau personél, gweinyddiaeth wael a.y.b.

9.4 Yn rheolaidd bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw'r cynllun yn cyd-fynd â'r datganiad o egwyddorion buddsoddi yma a bydd y datganiad yn cael ei adolygu o leiaf yn llawn bob tair blynedd (mewn cysylltiad gyda'r partïon eraill i'r datganiad) a bydd datganiad diwygiedig yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi.

**10. Cydymffurfiad gydag Egwyddorion Buddsoddi**

10.1 Mewn ymateb i Adroddiad y Trysorlys "Updating the Myners Principles: A Response to Consultation" (mis Hydref 2008), mae'n ofynnol ar i awdurdodau gweinyddol CPLIL, baratoi, cyhoeddi a chynnal datganiad o gydymffurfiad gyda'r chwe egwyddor sy'n cael eu cynnwys yn

nogfen CIPFA o’r enw, “Investment Decision Making and Disclosure in the Local Government Pension Scheme”.

10.2 Mae **Atodiad 2** yn nodi i ba raddau y mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio gyda'r deg egwyddor yma ac os nad ydym yn cydymffurfio, y rhesymau pam.

**11. Trefniant Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol**

11.1 Mae’r Pwyllgor yn rhoi cyfle i aelodau fuddsoddi mewn amrediad o ffyrdd ar ddisgresiwn yr aelodau.

**Atodiad 1: Dyraniad Asedau Strategol**

Mae gan y Gronfa ei meincnod pwrpasol ei hun ac mae ei pherfformiad yn cael ei fesur yn ei erbyn. Mae gan bob Rheolwr Buddsoddi meincnod unigol ei hun ar gyfer mesur eu perfformiad yn ei erbyn a'u targedau eu hunain. Mae dyraniad meincnod y Gronfa fel a ganlyn:

| | **Cyfanswm %** |
|---|---|
| **Cyfranddaliadau'r DU** | **19.5** |
| **Cyfranddaliadau Tramor** | **48.0** |
| Gogledd America | 22.5 |
| Ewrop ac eithrio'r DU | 10.0 |
| Siapan | 5.0 |
| Basn y Pasiffig | 4.5 |
| Marchnadoedd sy'n Datblygu | 6.0 |
| **Ecwiti Preifat** | **5.0** |
| **Cyfanswm Cyfranddaliadau** | **72.5** |
| Bondiau Byd-eang | 15.0 |
| **Cyfanswm Bondiau** | **15.0** |
| **Eiddo** | **10.0** |
| **Isadeiladwaith** | **2.5** |
| **Cyfanswm** | **100.0** |

**Atodiad 2 – Cydymffurfiad gydag Egwyddorion Myners**

**Egwyddor 1: Gwneud Penderfyniadau Effeithiol**

**Dylai awdurdodau gweinyddol sicrhau bod:**

- **penderfyniadau yn cael eu cymryd gan bersonau neu gyfundrefnau gyda'r sgiliau, gwybodaeth, cyngor a'r adnoddau sydd eu hangen i'w gwneud yn effeithiol a monitro eu gweithrediad; a**
- **bod gan y personau neu gyfundrefnau hynny ddigon o arbenigedd i allu gwerthuso a herio'r cyngor maent yn ei dderbyn, a rheoli gwrthdaro buddiannau.**

Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio gyda'r egwyddor yma. Gan Gyngor Gwynedd mae'r cyfrifoldeb am strwythur a chyfansoddiad y Pwyllgor Pensiynau ac mae'n cael ei adolygu ar sail gyfnodol pan fo materion strwythurol yn codi.

Mae gofyn i bob aelod o'r Pwyllgor Pensiynau fynychu cwrs tri diwrnod "Trustee Training Fundamentals", ac yn dilyn hwnnw maent yn derbyn tystysgrif hyfforddiant "LGPS Fundamentals". Yn ddelfrydol mae gofyn i aelodau newydd gwblhau'r cwrs cyn eistedd ar y Pwyllgor Pensiynau am y tro cyntaf. *Mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi mabwysiadu argymhellion y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau gan CIPFA. Mae asesiadau hyfforddiant yn cael eu gwneud a chynllunnir hyfforddiant i sicrhau bod aelodau gyda'r wybodaeth a sgiliau er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn y broses hon hefyd*.

Nid yw aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn cael eu talu - maent yn derbyn lwfansau fel aelodau eraill awdurdod lleol. Nid ydynt yn derbyn unrhyw lwfansau penodol mewn perthynas â'u dyletswyddau Pensiynau.

**Egwyddor 2: Amcanion Clir**

**Dylai amcanion buddsoddi cael eu gosod allan ar gyfer y Gronfa gyfan sy'n cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau'r cynllun, yr effaith posibl ar drethdalwyr lleol, cryfder y cyfamod ar gyfer cyflogwyr sydd ddim yn awdurdod lleol, a'r agwedd tuag at risg gan yr awdurdod gweinyddol a chyflogwyr y cynllun, a dylai'r rhain gael eu cyfathrebu'n glir i ymgynghorwyr a rheolwyr buddsoddi.**

*Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio gyda'r egwyddor yma.*

*Y nod buddsoddi yw sicrhau bod digon o adnoddau i dalu rhywmigedaethau Pensiynau nawr ac yn y dyfodol tra sicrhau bod cyfraniadau cyflogwyr yn fforddiadwy.*

*Mae'r prisiad teirflynyddol i osod cyfraniadau cyflogwyr yn cynnwys asesiadau sut gellir lleddfu'r risgiau sydd yn wynebu'r gronfa. Mae dull hyblyg i gyfraniadau'r cyflogwyr yn unol â sefyllfa bob cyflogwr unigol.*

*Mae ymgynghorwyr y gronfa yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth osod amcan buddsoddi'r gronfa a phenodir rheolwyr gyda mandadau a thargedau penodol er mwyn cyfrannu at gyrraedd y targed cyflawn.*

**Egwyddor 3: Risg ac Ymrwymiadau**

**Wrth osod ac adolygu eu strategaeth buddsoddi, dylai'r awdurdodau gweinyddol gymryd i ystyriaeth ffurf a strwythur ymrwymiadau. Mae'r rhain yn cynnwys goblygiadau i drethdalwyr lleol, cryfder y cyfamod ar gyfer cyflogwyr sy'n cymryd rhan, y perygl iddynt fethu talu a risg hirhoedledd.**

Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio'n sylweddol gyda'r egwyddor yma.

*Adolygir y strategaeth buddsoddi o leiaf teirflynyddol yn dilyn y prisiad actiwaraidd*

*Cymerir golwg tymor hir ar gyfer y cyrff codi treth er mwyn sefydlogi lefelau cyfraniadau.*

*Ar hyn o bryd mae'r Gronfa yn ymgymryd asesiad mwy manwl ar y cyfamodau ar gyfer cyflogwyr cyfrannol eraill.*

**Egwyddor 4: Asesu Perfformiad**

**Dylai trefniadau fod mewn lle ar gyfer mesuriad ffurfiol o berfformiad buddsoddiadau, rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr. Dylai'r awdurdodau gweinyddol hefyd wneud asesiad ffurfiol yn achlysurol o'u heffeithiolrwydd hwy fel corff gwneud penderfyniadau ac adrodd am hyn i aelodau'r cynllun.**

Mae cydymffurfiaeth rannol gyda'r egwyddor hwn. Mae prosesau i fesur perfformiad buddsoddiadau a rheolwyr buddsoddi. Fodd bynnag, nid oes proses ffurfiol yn bodoli i asesu perfformiad ymgynghorwyr. Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw reswm i ystyried nad oedd y cyngor a dderbyniwyd mewn perthynas â dewis meincnodau a rheolwyr buddsoddi i fyny i'r lefel perfformiad disgwyliedig.

Nid oes proses ffurfiol yn bodoli i asesu perfformiad y Pwyllgor ei hun. *Mae gan y Bwrdd Pensiwn rôl i adolygu penderfyniadau sydd yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Pensiynau a bydd asesiad mwy ffurfiol effeithiolrwydd penderfyniadau'r Pwyllgor yn cael ei datblygu.*

**<u>Egwyddor 5: Perchnogaeth Gyfrifol</u>**

**Dylai awdurdodau gweinyddol:**

- **fabwysiadu, neu sicrhau bod eu rheolwyr buddsoddi yn mabwysiadu Datganiad o Egwyddorion Pwyllgor Cyfranddalwyr Sefydliadol (DoE PCS) ar gyfrifoldebau cyfranddalwyr ac asiantau;**
- **gynnwys datganiad o'u polisi o berchnogaeth gyfrifol yn y datganiad o egwyddorion buddsoddi; ac**
- **adrodd yn ôl yn achlysurol i aelodau'r cynllun ar weithrediad y fath gyfrifoldebau.**

Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio'n rhannol gyda'r egwyddor yma.

Mae rhai o'r rheolwyr buddsoddi wedi mabwysiadu'r DoE PCS, tra bod eraill yn ei adolygu a rhai heb ei fabwysiadu. Cred ein rheolwr ecwiti preifat nad ydi'r DoE PCS yn berthnasol iddynt hwy. Cyn belled ag y maen nhw yn y cwestiwn tydi o ddim ond yn berthnasol i fuddsoddwyr sefydliadol sydd wedi eu lleoli yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yn cynnwys polisi ar berchnogaeth gyfrifol ac mae'r Gronfa Bensiwn yn aelod o'r Local Authority Pension Fund Forum (LAPFF) er mwyn cael mwy o ddylanwad ar gwmnïau a buddsoddir ynddynt.

Cynhwysir gweithgareddau o'r fath yn yr Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn.

**<u>Egwyddor 6: Tryloywder ac Adrodd</u>**

**Dylai awdurdodau gweinyddol:**

- **weithredu mewn ffordd dryloyw, gyfathrebu gyda chyfranogwr ar faterion sy'n gysylltiedig â'u rheolaeth o fuddsoddiadau; eu trefniadau a risgiau, yn cynnwys perfformiad yn erbyn amcanion a ddatganwyd;**
- **ddarparu cyfathrebiadau rheolaidd i aelodau'r cynllun mewn ffyrdd maent hwy yn ei ystyried yn fwyaf addas.**

Mae Cronfa Gwynedd yn cydymffurfio gyda'r egwyddor yma.

*Mae'r Gronfa Bensiwn yn cynnal cyfarfodydd ar gyfer cyflogwyr a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd yn cynnwys gwybodaeth ar reolaeth buddsoddiadau, llywodraethu a risgiau. Mae perfformiad y gronfa yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol sydd yn cael ei dosbarthu i gyfranddalwyr. Mae safle we'r Gronfa Bensiwn yn cynnwys Gwybodaeth berthnasol i unrhyw fuddgyfranogwyr*

*Mae'r rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd.*

*Mae'n bwysig bod aelodau'r cynllun yn cael eu hysbysu ar bob agwedd o'r cynllun pensiwn. Er mwyn Cyfathrebu ag aelodau mae'r dulliau canlynol yn cael eu defnyddio:*

***Gwefan y Gronfa***

*Mae gwefan gynhwysfawr wedi ei datblygu. Mae'n cynnwys Gwybodaeth am bob agwedd ar y cynllun ac yn cynnwys adran ddiogel lle gall aelodau gyfrifo buddion eu hunain. Er mwyn defnyddio'r darpariaeth hon o'r safle mae angen cyfrinair. Mae'r wefan yn cael ei diweddaru'n gyson ac mae weid profi i fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i aelodau.*

***Cylchlythyr Gweithwyr***

*Mae cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Mae fel arfer yn ymdrin â materion eang megis newidiadau i'r cynllun a Gwybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael. Mae'r cylchlythyr hwn yn cael ei anfon yn uniongyrchol i gyfeiriad cartref yr aelod.*

***Datganiadau Buddion Blynyddol***
*Mae datganiad buddion blynyddol yn cael ei hanfon at yr aelodau yn dangos gwerth y buddion ar 31 Mawrth. Gwneir ymdrech bob blwyddyn i ddatblygu datganiad clir a hawdd yw'r ddilyn yn dilyn adborth gan aelodau. Rhagwelir bod y datganiadau yn cael eu hanfon ym mis Awst bob blwyddyn.*

***Cymorthfeydd Gweithwyr***

*Mae'r tim cyfathrebu yn yr Adain Pensiynau ar gael I gynnal cymorthfeydd ar sail unigol. Yn y cymorthfeydd hyn gall aelodau drafod unrhyw broblemau pensiwn sydd ganddynt neau gael rhagor o wybodaeth am y cynllun pensiwn. Ni all unrhyw gymgor ariannol cael ei roi – dim ond darparu ffeithiau yn unig.*

***Cyflwyniadau***
*Mae'r tim cyfathrebu ar gael I gynnig sgyrsiau neu gyflwyniadau ynghylch y cynllun hefyd.*

***Llyfrynnau am y Cynllun***

*Mae canllaw byr am y cynllun yn cael ei roi I bobo gweithiwr newydd. Mae'n cynnwys Gwybodaeth sylfaenol am y cynllun pensiwyn a'r manteision y mae'n ei gynnig. Mae copi o'r llythryn ar gael I unrhyw aelodau presennol hefyd. Mae ffeithlenni eraill ar gael ar bynciau megis gwlella buddion a dewisiadau ymddeol.*

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **17 MAWRTH 2016** |
| **TEITL** | **DIWEDDARIAD AR YMGYNGHORIADAU LLYWODRAETH WESTMINSTER (DCLG)** |
| **AWDUR** | **DAFYDD EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Chwefror 2016 roedd yr aelodau yn trafod ymatebion i'r ddau ymgynghoriad gan DCLG fel a ganlyn:

a) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: Meini Prawf Diwygiad Buddsoddiadau ac Arweiniad.

b) Diddymu a Disodli'r Rheoliadau Cynllun Bensiwn Llywodraeth Leol (Rheolaeth A Buddsoddi Cronfeydd) 2009.

1.2 Fel y cytunwyd cyflwynwyd ymateb gan yr wyth cronfa ar y cyd i'r ymgynghoriad Diwygiad Buddsoddiadau gyda llythyr Cefnogol gan fod un o'r wyth gronfa wedi eu harwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau perthnasol.

1.3 Roedd yr wyth cronfa yng Nghymru ymateb ar wahân i'r ymgynghoriad Rheolaeth a Buddsoddi Cronfeydd.

## 2. YMATEB GAN Y LLYWODRAETH

2.1 Nid yw ymateb y Llywodraeth i'r cyflwyniadau a derbyniwyd yn dilyn yr ymgynghoriad wedi cael ei chyhoeddi eto. Os yw'r Llywodraeth yn cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad cyn 17 Mawrth rhoddir diweddariad ar lafar yn y cyfarfod.